# CABINET Y CYNGOR 20130219

**Yn bresennol** – Y Cynghorydd Dyfed Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr - Siân Gwenllian, Peredur Jenkins, Brian Jones, John Wynn Jones, W.Gareth Roberts, Ioan Thomas, Paul Thomas, John Wyn Williams ac R H Wyn Williams.

**Hefyd yn bresennol** - Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Aled Davies (Pennaeth Adran Rheoleiddio), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Lewis (Cyfarwyddwr Corfforaethol), William Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Janet Roberts (Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi), Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd), Iolo Roberts (Rheolwr Cofrestru ), Rhian Tomos (Arweinydd Tîm Cefnogi Cabinet),

**Ymddiheuriadau : Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.**

## 1. CROESO

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Ioan Thomas Aelod Cabinet Gofal Cwsmer fuddiant personol oherwydd cysylltiad teuluol ag eitem rhif 7. Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

## 3. EITEM FRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2013.

## 5. ADDYSG A HYFFORDDIANT OL-16

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Sian Gwenllian, Aelod Cabinet Addysg.

**PENDERFYNWYD**

1. Cymeradwyo sefydlu'r Consortiwm Addysg a Hyfforddiant ôl-16, a'r model gweithredu;
2. Cadarnhau'r Memorandwm Dealltwriaeth, gan hefyd dderbyn y rolau a'r cyfrifoldebau nodir ar gyfer y Cyngor;
3. Awdurdodi swyddogion, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc, i wneud amrywiadau i'r Memorandwm fel bo'n angenrheidiol ac yn briodol i'r amgylchiadau;
4. Penodi'r Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Arweiniol y Consortiwm;
5. Cadarnhau penodiad Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol, a Dewi R. Jones, Pennaeth Addysg, fel cynrychiolwyr y Cyngor ar Bartneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn;

6. Cymeradwyo'r bwriad i'r Cyngor weithredu fel y Corff Arweiniol ar gyfer derbyn cyllid a rheoli gweithrediad cais Ewropeaidd y Bartneriaeth, a chadarnhau cyfraniad y Cyngor tua'r cyd-ariannu fel nodir yn yr adroddiad.

**6. CYNLLUNIAU EFFEITHLONRWYDD STRATEGOL Y CYNGOR**

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo gweithredu'r cynlluniau arbedion sydd wedi'u datblygu hyd yma gan Fwrdd Prosiect Effeithlonrwydd Strategol y Cyngor.

## 7. BIDIAU REFENIW A CHYFALAF

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Dyfed Wyn Edwards, Arweinydd y Cyngor.

.
**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r cynigion yn yr atodiadau i'r adroddiad ar gyfer cyllido'r bidiau a'u hargymell i'r Cyngor.

8. **STRATEGAETH ARIANNOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNWYD**

- Cadarnhau'r cynigion isod a luniwyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr fel y cynigion ar gyfer cyllideb 2013/14 a strategaeth ariannol 2013/14 – 2016/17 ac argymell hynny i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror.

- Y dylid mabwysiadu cyllideb refeniw o £233.913m yn 2013/14 i'w rannu fesul gwasanaeth fel y nodir yn Atodiad 1 a fydd hefyd yn golygu dibynnu ar arbedion o £1.921m yn 2013/14.

- Y dylid cyllido'r swm yma drwy'r grant o £181.633m y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru a £52.28m o'r Dreth Gyngor fyddai'n golygu cynnydd o 3.5% yn y Dreth Gyngor.

- Y dylid hefyd cymeradwyo bidiau unwaith ac am byth o £394,250 i'w ariannu allan o'r £268,050 arian grant cymell perfformiad a gedwir bob blwyddyn at ddibenion unwaith ac am byth gan ychwanegu £126,200 pellach o'r adnodd Dreth Gyngor a osodwyd o'r neilltu ar gyfer 2015/16.

- ran y sefyllfa dros y 4 blynedd nesaf, y dylid cynllunio i ddarganfod y bwlch ariannol o dros £32m a daflunnir ar gyfer y 4 blynedd i ddod drwy gynllunio i gynyddu'r Dreth Gyngor ar gyfartaledd o 3.5% y flwyddyn fydd yn darparu bron i £8m ar ben yr £8.7m o arbedion yr ydym wedi cynllunio ar eu cyfer yn barod.

- Y dylid anelu wedyn i ddarganfod y gweddill drwy osod targed effeithlonrwydd pellach o £6.4m a cheisio gwyro galw am wasanaethau'r Cyngor drwy fod yn rhagweithiol i osgoi creu galw am y gwasanaethau hynny gyda golwg ar ddarganfod £5m pellach. Byddai

unrhyw swm ar ôl i'w ddarganfod wedyn yn gorfod dod o doriadau.

- Cymeradwyo rhaglen gyfalaf o £20.839m ar gyfer 2013/14; £15.748m ar gyfer 2014/15 a £20.346 ar gyfer 2015/16 ar y cynlluniau a nodir yn Atodiad 3.

- Cytuno i ddileu'r cynllun arbedion "Cefnogaeth i Aelodau" (£54,000) o'r cynlluniau arbedion yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**9. CYLLIDEB REFENIW 2012/13 ADOLYGIAD 3YDD CHWARTER**

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNWYD**

Gofyn i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried trosglwyddo £200,000 i gyllideb y Gwasanaeth Plant ar sail barhaol erbyn 2013/14.

Gofyn i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried trosglwyddiad parhaol i'r pennawd Iechyd Meddwl ar sail barhaol erbyn 2013/14.

Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Ystyried eto, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, pan fydd sefyllfa cefnogaeth ariannol posibl gan Lywodraeth Cymru yn fwy eglur, a ddylid rhoi cefnogaeth ariannol o gyllideb wrth gefn y Cyngor tuag at gost adfer is-adeiladwaith ffyrdd ac ati yn dilyn difrod llifogydd Tachwedd 2012.

Adran Rheoleiddio – Ystyried eto, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, pan fydd sefyllfa cefnogaeth ariannol posibl gan Lywodraeth Cymru yn fwy eglur, a ddylid rhoi cefnogaeth ariannol o gyllideb wrth gefn y Cyngor tuag at gost adfer adeiladwaith pontydd ac ati yn dilyn difrod llifogydd Tachwedd 2012.

**10. RHAGLEN GYFALAF 2012/13 ADOLYGIAD 3YDD CHWARTER**

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2012/13 i 2014/15 a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu addasedig (yn rhan 2.2 – 2.7) a'r trosglwyddiad cyllideb (yn 2.8).

.

**11. ADOLYGU'R DEFNYDD O'R GWASANAETH COFRESTRU**

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Gofal Cwsmer.

**PENDERFYNWYD**

Cynnig gwasanaeth cofrestru o'r gorsafoedd allanol yng Nghaernarfon, Porthmadog, Tywyn a Bala yn ogystal â'r prif swyddfeydd ym Mangor, Pwllheli a Dolgellau. Yn sgil hyn ni fydd y gwasanaeth ar gael yn Llanberis, Deiniolen, Penygroes, Criccieth, Penrhyndeudraeth, Trawsfynydd, Harlech na Blaenau Ffestiniog

## 12. GORCHMYNION RHEOLI CŴN

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd**.**

**PENDERFYNWYD**

Mabwysiadu Gorchymyn Rheoli Cŵn ar gyfer Gwynedd ar sail y drafft a gyflwynwyd yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

Gosod lefel dirwyon ar gyfer y troseddau sydd wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn ar £100 y drosedd ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf gyda disgownt i £60 os telir y ddirwy o fewn 10 diwrnod.

Dirprwyo'r hawl i wneud mân addasiadau ffiniau'r parthau gwahardd cŵn ac i eiriad y dogfennau sydd yn gysylltiedig â sefydlu'r Gorchymyn Rheoli Cŵn, i'r Pennaeth yr Adran Rheoleiddio mewn ymgynghoriad a Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol a'r Aelod Cabinet Amgylchedd er hwyluso'r broses o sefydlu'r gorchymyn.

## 13. CYFANSODDIAD TAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd.

**PENDERFYNWYD**

**a)** cymeradwyo'r newidiadau canlynol i gyfansoddiad TAITH sef:-

**i)** ymestyn ardal weithredol TAITH i gynnwys Gwynedd gyfan mewn perthynas â rhai materion penodol,

**ii)** cynnwys y cymal 1 ... "I weinyddu, comisiynu a gweithredu grantiau ariannu bws a strategaethau rhwydwaith bws i'r rhanbarth".

**b)** dirprwyo i TAITH yr hawl i weinyddu y grant gwasanaethau cludiant ar ran Gwynedd gyfan (ond nid y gwasanethau cludiant sy'n parhau i gael eu hariannu gan y Cyngor)

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.45pm

**CADEIRYDD**